**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad:** Dydd Iau 24 Mehefin 2004
**Amser:** 9:15am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora X, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
**Teitl:** Y Weithdrefn Gwynion - y Weithdrefn Apelio

**Y Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod ar 13 Mai, bu'r Pwyllgor yn ystyried gweithdrefn gwynion ddiwygiedig ddrafft ar gyfer cwynion a wnaed yn erbyn Aelodau'r Cynulliad. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ddogfen ddrafft ond roedd ganddo nifer o bryderon ynghylch rhannau penodol o'r weithdrefn. Un o'r meysydd hyn oedd y Weithdrefn Apelio.

2. Roedd y Pwyllgor yn cytuno mewn egwyddor y dylid cael gweithdrefn apelio, ond nid oedd yn fodlon â'r weithdrefn a amlinellwyd yn y papur. Cytunodd y Pwyllgor:

   i. na ddylid cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor nes bod unrhyw broses apelio wedi dod i ben;

   ii. y dylid ehangu'r sail dros apelio i gynnwys penderfyniadau afresymol neu afresymegol, afreoleidd-dra gweithdrefnol a chamgymeriadau ffeithiol o bwys.

3. Rydym wedi nodi'r pwyntiau hyn ac wedi newid y weithdrefn ddrafft yn unol â hynny. Gellir gweld y newidiadau yn Atodiad A - mae'r newidiadau wedi'u tracio. Bydd y Pwyllgor am ystyried a yw hyn yn adlewyrchu'r newidiadau y gofynnodd amdanynt.

4. Serch hynny, bu'r drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf yn canolbwyntio ar gyfansoddiad y panel apelio. Roedd yr aelodau'n anfodlon â'r ffaith mai'r Llywydd a dau aelod o Banel y Cadeiryddion oedd aelodau'r panel. Gofynnodd y Pwyllgor am gyngor ac am ddewisiadau eraill ar y mater hwn.

**Argymhelliad Woodhouse**

5. Argymhellodd adroddiad Woodhouse (argymhelliad 27):

   *Bod y Pwyllgor yn argymell un o'r dewisiadau apelio canlynol i'r Cynulliad, sef:*

   1. *hawl apelio pan geir anghytuno ynglyn â'r ffeithiau i dribiwnlys ad hoc, gyda chyfreithiwr allanol fel cadeirydd a dau Aelod hy^n o'r Cynulliad*; neu

   2. *apelio i'r Llywydd (pe na bai ef bellach â rhan yn y broses gwynion; gweler argymhelliad 31 isod), y Dirprwy Lywydd ac un Aelod hy^n arall o'r Cynulliad. Neu, os yw'r Llywydd yn cadw ei safle bresennol, gellid apelio i'r Dirprwy Lywydd a dau Aelod hy^n arall o'r Cynulliad. (para 3.9.2)*

6. Roedd swyddogion o'r farn fod y dewis cyntaf uchod yn anodd i'w weithredu'n ymarferol (hynny yw, o ran penodi Cadeirydd) a'i fod yn agos iawn at y broses hunan-reoleiddio sydd wedi bod ar waith yn y Cynulliad hyd yn hyn. Fodd bynnag, yng ngoleuni pryderon y Pwyllgor, trafodir y dewis hwn ymhellach yn Atodiad B, ynghyd ag amryfal ddewisiadau posibl eraill.

7. Yn y bôn, ail ran yr ail ddewis uchod oedd y cynnig y bu'r Pwyllgor yn ei ystyried yn ei gyfarfod diwethaf. Defnyddiwyd Aelodau o Banel y Cadeiryddion yn hytrach na'r cysyniad llai pendant o Aelodau "hy^n" o'r Cynulliad. Gwnaed ymgais hefyd i gadw

rhywfaint o gydbwysedd y pleidiau drwy ei gwneud yn ofynnol bod un aelod o'r panel yn perthyn i'r un blaid â'r Aelod y gwnaed y gwyn yn ei (h)erbyn, ac un i blaid wahanol.

8. Bu adroddiad Woodhouse hefyd yn ystyried dau bosibiliad arall, ond cawsant eu gwrthod. Y rhain oedd:

   i. Cwynion sy'n cael eu hystyried gan is-bwyllgor ad hoc o'r Pwyllgor Safonau. Byddai'r is-bwyllgor hwnnw yn derbyn adroddiad y Cynghorydd, yn gwrando ar sylwadau ac yn penderfynu ar y gwyn. Ar ôl hynny, byddai unrhyw apêl yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau llawn, ond ni fyddai aelodau o'r is-bwyllgor yn eistedd ar y Pwyllgor llawn pan fyddai'n clywed yr apêl.

   ii. Apêl i'r Cynulliad Llawn, gydag Aelodau o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gorfod ymatal rhag pleidleisio.

**Y Dewisiadau Eraill**

9. Awgrymwyd nifer o ddewisiadau eraill yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Mai. Yn eu plith roedd panelau ad hoc wedi'u hethol ar gyfer pob achos, trefniadau dwyochrog â deddfwriaethau eraill y DU neu â llywodraeth leol, a phanelau apeliadau cwbl annibynnol. Trafodir yr holl ddewisiadau hyn ymhellach yn Atodiad B, ynghyd â'r dewisiadau a ystyriwyd gan Woodhouse.

**Yr Arfer mewn Mannau Eraill**

10. Mae Adroddiad Woodhouse yn disgrifio'r arfer yn Nhy'r Cyffredin, Senedd yr Alban, Ty'r Arglwyddi ac mewn mannau eraill (paragraffau 3.9.1 to 3.9.10). Er gwybodaeth, ceir dyfyniad yn Atodiad C. Er bod y papur hwn yn disgrifio nifer o brosesau apeliadau, nid oes un ohonynt sy'n wahanol yn y bôn i'r prosesau a amlinellir yn y papur hwn.

**Argymhelliad**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cyngor hwn ac

   i. i ddweud a yw'n fodlon â'r newidiadau i'r weithdrefn apelio a amlinellir yn Atodiad A; a

   ii. i ystyried a yw unrhyw un o'r dewisiadau a ddisgrifir yn Atodiad B yn cynnig model addas ar gyfer y broses apelio.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad** **Mehefin 2004**